Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Parc
# Ysgol Y Parc
# Caergybi
# Ynys Mon
# LL65 1LA

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:


Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk


Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk


**© Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 24/10/2012**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Cylch Meithrin Y Parc yn wreiddiol tua 40 mlynedd yn ôl. Cofrestrwyd y cylch presennol gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym Mawrth 2011 ac fe'i harolygwyd ganddo ym Mehefin 2011. Mae'r cylch yn rhan o ddarpariaeth y Mudiad Meithrin ar ran Partneriaeth Plant Ynys Môn.

Mae'r cylch yn gwasanaethu rhan o dref Caergybi yn Ynys Môn ac wedi ei leoli mewn ystafell bwrpasol yn adeilad Ysgol Gynradd Y Parc. Saesneg yw prif iaith yr ardal ac nid oes un o'r plant sy'n mynychu'r cylch ar hyn o bryd o gartref ble mae'r Gymraeg yn brif iaith.

Yn ystod yr arolygiad roedd wyth o blant yn mynychu'r cylch. Un yn unig oedd yn dair oed a'r gweddill yn ddwy oed. Caiff plant eu derbyn yn dilyn cyrraedd oed o ddwy a hanner ac mae'r ddarpariaeth ar gael am bum sesiwn foreol o ddwy awr yr wythnos. Caiff y cylch ei staffio gan arweinydd a dwy gymhorthwraig dysgu. Mae hefyd yn cael cefnogaeth gweithiwr iaith y Mudiad Meithrin am un sesiwn yr wythnos. Ar adeg yr arolygiad roedd myfyrwraig dan hyfforddiant yn aelod ychwanegol o'r staff.

Mae'r ystafell a ddefnyddir gan y cylch o faint pwrpasol. Mae ynddi gyfleusterau toiledu ac ymolchi addas ac mae ardal chwarae ddiogel i'r plant y tu allan. Mae'r cylch hefyd yn gallu manteisio ar gyfleusterau ychwanegol ar safle'r ysgol megis ardal i dyfu planhigion a'r neuadd.

Disgrifir yr ardal fel un sydd dan anfantais economaidd. Mae gallu'r plant yn amrywio'n sylweddol pan gychwynnant yn y cylch. Ar ddiwedd eu cyfnod yn y cylch bydd bron pob plentyn yn trosglwyddo i Ysgol Y Parc. Mae gan bob aelod o'r staff gymwysterau addas yn addysg y blynyddoedd cynnar. Cafodd y cylch ei arolygu'n flaenorol gan Estyn yn 2002.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol y darparwr yn dda oherwydd:

- bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau yn dda;
- bod safon yr addysgu yn dda;
- bod y trefniadau i gefnogi iechyd a lles y plant yn dda; ac
- mae'r ethos cynhwysol sy'n bodoli yn y Cylch yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bob un o'r plant.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r darparwr yn dda oherwydd:

- bod gan y cylch ddisgwyliadau uchel ac mae'r cynllunio yn canolbwyntio'n briodol ar anghenion y plant;
- yn gyffredinol, mae gan y cylch ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a'r meysydd i'w datblygu;
- bod perthynas dda yn bodoli rhwng y lleoliad a rhieni; ac
- mae cysylltiad gweithredol effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol gynradd ble lleolir y cylch a gyda phartneriaid allweddol eraill.

## Argymhellion

R1 Sicrhau fod y cynllunio ar gyfer datblygiad corfforol y plant yn gwneud defnydd mwy effeithiol o'r gofod allanol a mewnol sydd ar gael.

R2 Sicrhau ystod ehangach o adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gyfoethogi profiadau'r plant.

R3 Datblygu trefniadau addas i flaenoriaethu holl anghenion gwella'r lleoliad mewn un cynllun gwella cynhwysfawr.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i argymhellion yr adroddiad hwn. Bydd y cynnydd yn erbyn cynnwys y cynllun yn cael ei fonitro gan yr awdurdod lleol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | N/A |
|---|---|

**Safonau: N/A**

Oherwydd bod nifer y plant tair oed yn llai na phump nid yw'r adroddiad yn adrodd ar safonau plant.

**Lles: N/A**

Oherwydd bod nifer y plant tair oed yn llai na phump nid yw'r adroddiad yn adrodd ar les plant.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn cynllunio'r profiadau ar gyfer y plant ar sail cyfres o themâu addas dros y flwyddyn. Mae'r cynllunio yn rhoi sylw priodol i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac yn darparu ar gyfer pob maes dysgu dros amser. Yn gyffredinol, mae'r cynllunio wythnosol yn sicrhau gweithgareddau diddorol sydd yn ennyn diddordeb y plant. Yn y cynllunio yma mae'r staff yn sicrhau amrywiaeth briodol rhwng tasgau sy'n cael eu harwain gan y plant a rhai sy'n cael eu harwain gan oedolion. Mae'r gweithgareddau ffocws yn cyfoethogi profiadau'r plant yn effeithiol. Felly hefyd y cyfleoedd a gynllunir i'r plant ymweld â lleoliadau megis llyfrgell y dref a siopau lleol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygiad corfforol y plant yn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau sydd ar gael i'r lleoliad.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau yn dda. Mae amrywiaeth y gweithgareddau a gynllunnir ar gyfer y plant yn sicrhau ystod dda o gyfleoedd i gaffael medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r ymarferwyr yn rhoi pwyslais priodol ar ddatblygiad llafaredd. Mae gweithgareddau a threfniadau'r lleoliad i ddatblygu'r iaith Gymraeg ag i hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a diwylliant Cymru yn effeithiol. Mae ystod briodol o weithgareddau diddorol yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r byd ehangach.

**Addysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plant a gweithgareddau y maent hwy yn eu harwain. Maent yn ymyrryd yn briodol yng ngweithgareddau chwarae'r plant gan holi a herio yn effeithiol. Maent hefyd yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen a phwysigrwydd rhoi cyfleoedd i blant ddysgu trwy weithgaredd ymarferol. Caiff ymddygiad y plant ei reoli yn dda sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gyfranogiad a mwynhad y plant. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n dda fel tîm ac mae eu disgwyliadau yn uchel.

Caiff cynnydd plant ei fesur yn effeithiol drwy arsylwi rheolaidd a chofnodi ar gyfer pob plentyn. Mae'r cofnodion yn gynhwysfawr ond nid yw'r defnydd o ddeilliannau'r

asesiadau i gynllunio ar gyfer anghenion plant unigol wedi datblygu'n ddigonol hyd yma. Caiff rhieni a gofalwyr eu cynnwys yn briodol yn yr asesiadau cychwynnol ac mae'r cylch yn adrodd yn addas iddynt ar gynnydd eu plant drwy gyfrwng y Llyfrau Trysor ar ddiwedd eu cyfnod yn y cylch.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau priodol yn bodoli yn y cylch i gefnogi iechyd a lles y plant. Mae trefniadau sefydlu'n sicrhau bod plant yn ymgynefino'n dda yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymddygiad da yn effeithiol ac mae hyn yn meithrin gwerthoedd o degwch a pharch yn y plant. Prin iawn yw achosion o aflonyddu ac mae'r plant yn cydweithio a rhannu offer a theganau yn dda. Mae trefniadau da ar gyfer hyrwyddo byw'n iach a lles. Hyrwyddir yr egwyddor o fwyta'n iach drwy sicrhau bod y byrbryd dyddiol yn cynnwys ffrwythau a llefrith. Mae'r ymarferwyr yn rhoi sylw penodol i elfennau hylendid megis golchi dwylo a brwsio dannedd. Caiff datblygiad moesol y plant ei hyrwyddo drwy gyd-adrodd gweddi fer o ddiolch cyn y byrbryd. Mae'r plant yn hapus yn y cylch ac mae'r ymarferwyr yn ofalgar a bob amser wrth law i gysuro pe bai angen. Mae'r trefniadau hyn yn cyfrannu'n dda at ddysgu effeithiol.

Mae ystod dda o bolisïau a gweithdrefnau gan y cylch ar gyfer diogelu'r plant. Maent yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r holl ymarferwyr yn ymwybodol o'r trefniadau amddiffyn plant ac wedi derbyn hyfforddiant addas.

Mae cysylltiadau addas yn bodoli ag asiantaethau allweddol eraill ac fe fanteisir yn briodol arnynt yn ôl yr angen. Mae gan y cylch hefyd drefniadau priodol ar gyfer adnabod a chefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac maent yn meithrin ethos teuluol sy'n cyfoethogi eu lles emosiynol. Mae'r ethos cynhwysol sy'n bodoli yn y Cylch yn hyrwyddo cyfle cyfartal i bob un o'r plant.

Mae gan y cylch gyflenwad da o adnoddau addas ac, yn gyffredinol, mae hyn yn galluogi'r lleoliad i ymateb yn effeithiol i ofynion cwricwlwm y cyfnod sylfaen, ac anghenion penodol y plant. Fodd bynnag, mae'r cyfleusterau ar gyfer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu braidd yn gyfyngedig ar hyn o bryd. Mae'r gofod addysgu sydd ar gael o fewn yr adeilad yn ddigonol o ran maint a chyfleusterau ac yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Mae gan y cylch fynediad at ofod addysgu allanol priodol ac mae yn cael defnydd o adnoddau pellach ar y safle ar gyfer plannu a thyfu planhigion. Caiff y cylch hefyd ddefnydd o neuadd yr ysgol am gyfnodau.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd drefniadau effeithiol ar gyfer sicrhau bod yr ymarferwyr eraill yn deall eu rôl a'u cyfrifoldeb mewn perthynas â gweithgaredd dyddiol y cylch, yn ogystal â nodau a chynlluniau mwy estynedig. Gosodir disgwyliadau uchel ac mae'r

cynllunio yn canolbwyntio'n briodol ar anghenion y plant. Mae swydd ddisgrifiadau priodol ar gyfer pob aelod o staff ac mae trefn werthuso addas yn ei lle sy'n hybu gwella ymarferwyr. Mae arweinydd y cylch wedi sefydlu perthynas broffesiynol effeithiol gyda'r ysgol gynradd a gwasanaethau perthnasol eraill gan gynnwys gwasanaethau cefnogi'r awdurdod addysg a'r Mudiad Meithrin. Mae ansawdd darpariaeth y cylch yn elwa o hyn. Sefydlwyd cysylltiadau da â rhieni a gofalwyr sydd yn cyfrannu'n benodol at les plant.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cynnwys cynrychiolaeth o blith rhieni ac mae'n ymgymryd yn briodol â'i gyfrifoldebau. Mae aelodau arweiniol y pwyllgor yn cadw cyswllt agos â staff i drafod anghenion ac i glustnodi adnoddau yn unol â blaenoriaethau'r cylch.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Yn gyffredinol, mae gan y cylch ddealltwriaeth dda o'i gryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Mae diwylliant o hunan arfarnu wedi gwreiddio'n dda yng ngwaith y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn cyfrannu'n effeithiol i'r trefniadau ar gyfer monitro safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Ceir cyfraniad gwerthfawr i'r broses hefyd gan aelodau o'r pwyllgor rheoli. Rhoddir sylw priodol i argymhellion yn deillio o ymweliadau athrawes gefnogol yr awdurdod addysg ac i argymhellion yn codi o arolygiad yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

Gwnaed cynnydd da ar gyfarfod â nifer o'r anghenion sydd wedi eu hadnabod gan y cylch. Serch hynny, nid yw'r holl feysydd gwella sydd wedi eu hadnabod yn cael eu cofnodi yn ddigon clir yn yr adroddiad hunan arfarnu. O'r herwydd, nid yw'r anghenion gwella yn cael eu blaenoriaethu'n effeithiol mewn un cynllun datblygu cynhwysfawr wedi ei amserlennu dros gyfnod priodol.

Mae elfen gref o gydweithio rhwng yr ymarferwyr â'i gilydd a gyda'r pwyllgor rheoli. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd y dysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae perthynas dda yn bodoli rhwng y lleoliad a rhieni. Caiff ei chyfoethogi ymhellach drwy bresenoldeb cynrychiolaeth o'r rhieni ar y pwyllgor rheoli. Cyflwynir gwybodaeth fuddiol am waith y cylch drwy gylchlythyr tymhorol ac mae gwybodaeth bellach am weithgareddau a gofynion dydd-i-ddydd y lleoliad yn cael ei arddangos ar hysbysfwrdd ger y fynedfa.

Mae cysylltiad gweithredol effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol gynradd ble lleolir y cylch ac y mae bron pob plentyn yn trosglwyddo iddi. Datblygwyd trefniadau buddiol i ddefnyddio adnoddau ar y cyd sydd yn gwella ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth. Mae trefniadau priodol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth berthnasol am gynnydd plant i'r ysgol ar ddiwedd eu cyfnod yn y cylch. Yn ychwanegol, trefnir ystod o weithgareddau addas ar gyfer anwytho'r plant i ddosbarth meithrin yr ysgol. Mae'r trefniadau yma yn hyrwyddo lles y plant.

Mae perthynas weithredol effeithiol yn bodoli gyda'r Mudiad Meithrin ac mae presenoldeb gweithiwr cefnogol o'r Mudiad am un sesiwn yr wythnos yn cyfoethogi'r ddarpariaeth. Sefydlwyd perthynas yn ddiweddar gyda Choleg Addysg Bellach lleol

ac mae’r cylch yn cyfrannu at agweddau ymarferol hyfforddi myfyrwyr ac yn manteisio o’u cyfraniad at y dysgu.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r rheolwyr, ymarferwyr ac aelodau’r pwyllgor yn sicrhau'r safon gorau o ddarpariaeth o fewn eu cyllideb a rheolaeth. Mae’r lleoliad wedi ei staffio’n briodol a gwneir defnydd effeithiol o amser, profiad ac arbenigedd staff. Mae’r trefniadau ar gyfer gwerthuso yn adnabod anghenion datblygu staff yn briodol ac maent wedi manteisio ar gyfleoedd datblygu o fewn trefniadau’r awdurdod lleol.

Caiff adnoddau ariannol eu defnyddio’n effeithiol ac fe gysylltir gwariant gyda chynlluniau gwella yn dda. Mae hyn yn gymorth i sicrhau fod penderfyniadau gwariant yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cynnydd a lles plant.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Gan fod nifer yr ymatebion a dderbyniwyd i’r holiadur yn llai na phump nid yw’r adroddiad yn adrodd ar gynnwys yr ymatebion hynny.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Iwan Roberts | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |